



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Hawliau Plant ym Mhrydain Fawr

—

Cyflwyniad i Bwyllgor y CU ar
Hawliau'r Plentyn

Crynodeb gweithredol

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC).....	2
Datganoli a chwmpas daearyddol yr adroddiad hwn.....	3
1. Fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol	4
Argymhellion	5
2. Safonau byw (Erthyglau 26 a 27)	8
Argymhellion	10
3. Addysg (Erthyglau 28, 29 ac 42)	13
Argymhellion	16
4. Plant mewn sefydliadau (Erthyglau 23, 24 a 25)	19
Argymhellion	20
5. Cyfiawnder ieuenctid (Erthyglau 37 a 40)	22
Argymhellion	24
6. Ffoaduriaid a phlant mudol (Erthyglau 10, 22 a 37)	27
Argymhellion	28
7. Iechyd (Erthyglau 6 a 24)	30
Argymhellion	32
8. Trais a diogelwch personol (Erthyglau 19, 34, 35 a 36)	34
Argymhellion	36
Cysylltiadau	38

Cyflwyniad

Nod y cyflwyniad hwn yw rhoi gwybodaeth i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC y CU) am weithredu'r hawliau y manylwyd arnynt yn y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CRC)¹ ym Mhrydain Fawr ers iddo gael ei adolygu ddiwethaf gan CRC y CU yn 2016.²

Yn y crynodeb gweithredol hwn, rydym yn tynnu sylw at bryderon ynglŷn â rhoi'r CRC ar waith, ac yn cynnwys argymhellion i CRC y CU eu hystyried yn rhan o'i Restr o Faterion Cyn Adrodd.

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) yn cael effaith ddigynsail a negyddol dros ben ar blant, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae hyn eisoes yn amlwg mewn sawl agwedd ar fywydau plant. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, rydym wedi nodi yn y cyflwyniad hwn rai o'r ffyrdd y mae'r pandemig wedi gwaethygu problemau sy'n bodoli eisoes, a lle y mae wedi arwain at broblemau newydd. Ceir dadansoddiad pellach yn ein Hatodiad cysylltiedig.

Rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

Sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) gan Senedd y DU trwy Ddeddf Cydraddoldeb 2006 fel corff annibynnol â mandad sy'n cwmpasu cydraddoldeb a hawliau dynol fel ei gilydd. Ymhlith cyfrifoldebau hawliau dynol eraill, cafodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y dasg o asesu ac adrodd ar gynnydd y DU o ran cyflawni'r hawliau dynol yn y cytuniadau a gadarnhawyd gan y DU.³

¹ [Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn](#)

² CRC y CU, [Arsylwadau cloi: Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, CRC/C/GBR/CO/5, 12 Gorffennaf 2016.](#)

³ Ibid., Adran 9(2)

Datganoli a chwmpas daearyddol yr adroddiad hwn

Mae pedair gwlad yn y DU: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Senedd y DU wedi datganoli pwerau amrywiol i Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ac mae'n parhau i fod yn gyfrifol am faterion sydd heb eu datganoli ac am Loegr.

Mae'r cyflwyniad hwn yn cwmpasu Cymru a Lloegr ar gyfer yr holl feysydd thematig, yn ogystal â'r Alban ar gyfer y materion hynny sydd wedi'u neilltuo i Senedd y DU.

1. Fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol

Yr ydym yn pryderu'n fawr am effaith pandemig y coronafeirws, yn y tymor byr a'r tymor hir, ar hawliau, lles a dyfodol plant. Mae hyn yn cynnwys gwthio mwy o blant i dlodi, lledu'r bwch rhwng yr anghydraddoldebau addysgol, cynyddu'r risg o gamdriniaeth, a gwaethygu iechyd meddwl. Mae fframwaith cadarn ac effeithiol hawliau plant yn hollbwysig. Felly hefyd blaengynllunio meddylgar, hyblyg a chynhwysol gan lywodraethau.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymgorffori'r CRC yn uniongyrchol mewn cyfraith ddomestig, felly nid oes modd i lysoedd domestig ei orfodi, ac eithrio lle mae rhai eithriadau penodol yn berthnasol.⁴ Fodd bynnag, mae'r CRC wedi'i ymgorffori'n rhannol yn neddfwriaeth Cymru⁵ ac mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwmo i ymgorffori'r CRC yn llawn yng nghyfraith yr Alban.⁶

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i 'ddiweddaru'r Ddeddf Hawliau Dynol'.(HRA)'.⁷ Mae'n bwysig bod barn plant yn cael ei chlywed a'i hystyried yn y broses, ac nad yw'n gwanhau amddiffyniadau hawliau.

Wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (UE), ni fydd yn cadw Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE, sy'n cynnwys amddiffyniad er budd pennaf y plentyn⁸ mewn cyfraith ddomestig. Ochr yn ochr â'r risgiau a achoswyd gan golli cyllid yr UE,⁹ rydym yn pryderu am wanhau amddiffyniadau hawliau plant.

⁴ Adlewyrchir egwyddorion y CRC yn rhai o feysydd deddfwriaeth ddomestig a gellir ei ddefnyddio fel cymorth dehongli statudol pan fydd y llysoedd yn ystyried hawliau dynol, gweler ZH (Tanzania) (FC) (Appellant) v Secretary of State for the Home Department (Respondent), [2011] UKSC 4.

⁵ Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

⁶ Senedd yr Alban (2020), United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) (Scotland) Bill [cyrchwyd: 7 Medi 2020].

⁷ Y Blaid Geidwadol ac Unoliaethol (2019), Manifesto 2019 [cyrchwyd: 20 Gorffennaf 2020].

⁸ Erthygl 24(2), Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd.

⁹ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) (2018), The future of funding for equality and human rights [cyrchwyd: 16 Gorffennaf 2020].

Rydym yn parhau i ddadlau y dylai llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sefydlu Mecanwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu, Adrodd a Gweithredu Dilynol (NMIRF) er mwyn rhoi ar waith yn effeithiol yr argymhellion a wnaed gan gyrrff cytuniadau'r Cenhedloedd Unedig ac o dan yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol (UPR). Er bod rhywfaint o barodrwydd i ystyried newid o fewn y llywodraethau datganoledig,¹⁰ bu diffyg ewyllys wleidyddol gan Lywodraeth y DU i wella'r broses o adrodd a gweithredu.

Yn 2018, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r broses ar gyfer cael cydnabyddiaeth gyfreithiol o rywedd yng Nghymru a Lloegr, fel ei bod yn 'llai ymwithiol' i bobl drawsryweddol,¹¹ er na chasglodd dystiolaeth ar y trothwy oedran. Er gwaethaf tystiolaeth gref o gefnogaeth i ddiwygio deddfwriaethol,¹² cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn 2020 na fyddai'n newid y gyfraith.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i 'gyflwyno cynigion i roi terfyn ar yr arfer o ddefnyddio therapi trosi yn y DU';¹³ fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd hyd yma.

Argymhellion

Coronafeirws (COVID-19)

Dylai llywodraeth y DU a Chymru:

- gynnal dadansoddiad beirniadol ar frys o effaith tymor byr a hirdymor y pandemig ar blant, gan ystyried yr effeithiau negyddol sy'n cymhlethu hyn a'r effaith anghymesur ar rai grwpiau

¹⁰ Er enghraifft, gweler [Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, pobl Ifanc ac Addysg ar yr Ymchwiliad i Hawliau Plant](#), 23 Medi 2020. Ar gyfer yr Alban, gweler [Grŵp Cyngori'r Prif Weinidog ar Arweinyddiaeth Hawliau Dynol \(2018\)](#), [Recommendations for a New Human Rights Framework to Improve People's Lives](#), Argymhelliad 4.

¹¹ Gweler Llywodraeth y DU (2018), [Reform of the Gender Recognition Act 2004](#) [cyrchwyd: 2 Medi 2020].

¹² EHRC (2018), [Response of the EHRC to the consultation on reform of the Gender Recognition Act](#).

¹³ Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2018), [National LGBT Action Plan](#).

Ymgorffori'r CRC

Dylai Llywodraeth y DU:

- Ymgorffori'n llawn ddarpariaethau'r CRC mewn cyfraith ddomestig. Dylai gyhoeddi ac ymgynghori ar gynigion i ymgorffori'r CRC yn statudol mewn cyfraith ddomestig, a dylai sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn y broses. Dylai Llywodraeth y DU ddysgu gwersi o fesurau llwyddiannus yng Nghymru a'r Alban a gyfrannodd at ddiogelu hawliau plant yn well, er enghraifft trwy sefydlu gweithgor hawliau plant i gynghori ar ymgorffori, a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth gan ddarparu cyllid i sicrhau cyfranogiad plant ar yr un pryd.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- dderbyn a gweithredu'r argymhellion a wnaed gan ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i hawliau plant yng Nghymru.
- cryfhau mesurau i ddiogelu hawliau plant yng Nghymru drwy wneud yr hawliau o fewn y CRC (a hawliau cytuniad eraill y CU) yn rhai cyfreithiol gorfodol.

Newidiadau cyfansoddiadol

Dylai Llywodraeth y DU:

- wneud datganiad clir o'i ymrwymiad i aros yn barhaol yn rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol hawliau dynol yn arwain at wanhau'r amddiffyniad ar gyfer hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant. Dylai sicrhau bod yr hawliau hynny, a'r llwybrau unioni presennol, yn parhau i gael eu hymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig drwy sicrhau bod unrhyw gynigion i newid neu ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn cynnwys deddfwriaeth newydd i gynnig amddiffyniad sydd o leiaf cyfwerth â hynny ar gyfer hawliau dynol, ac sy'n darparu cyfleoedd i gryfhau'r hawliau hyn ymhellach.
- sicrhau bod safbwyntiau plant o bob cefndir a'u cynrychiolwyr yn cael eu ceisio'n ystyrlon a'u cynrychioli a'u hadlewyrchu'n llawn yng ngwaith a chasgliadau'r Comisiwn Cyfansoddiad, Democratiaeth a Hawliau neu brosesau cysylltiedig.

Brexit

Dylai Llywodraeth y DU:

- osgoi unrhyw wanhau ar hawliau plant o ganlyniad i adael yr UE, gan gynnwys drwy sicrhau bod buddiannau pennaf y plentyn yn cael eu hamddiffyn yn statudol.
- sicrhau bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sy'n disodli cyllid yr UE, yn parhau i ddiogelu seilwaith cydraddoldeb a hawliau dynol y DU, gan gynnwys drwy sicrhau cefnogaeth barhaus i brosiectau sy'n gwarchod hawliau plant.

Mecanwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu, Adrodd a Gweithredu Dilydol

Dylai llywodraethau'r DU a Chymru:

- gryfhau eu hymrwymiad i'r fframwaith hawliau dynol rhyngwladol a sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu rhwymedigaethau'r DU ar lefel ddomestig, drwy sefydlu mecanweithiau cenedlaethol cynhwysfawr i fonitro ac adrodd ar gynnydd a sicrhau bod yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol ac argymhellion y cyrff cytuniadau yn cael eu gweithredu.

Deddf Cydnabod Rhywedd a phobl ifanc drawsryweddol

Dylai Llywodraeth y DU:

- gasglu tystiolaeth ar effaith bosibl lleihau'r terfyn oedran ar gyfer cydnabod rhywedd yn gyfreithiol, gan ystyried y gwahanol gyd-destunau ym mhob gwlad ym Mhrydain Fawr.
- dyrannu cyllid newydd ar frys ac ailgyflwyno ei rhaglen fwlio gwrth-LGBT mewn ysgolion ledled Lloegr.
- cyflwyno cynigion i roi terfyn ar yr arfer o 'therapiau trosi' sy'n ceisio newid naill ai cyfeiriadedd rhywiol plentyn neu hunaniaeth plentyn o ran ei rywedd.

2. Safonau byw (Erthyglau 26 a 27)

Rhagwelir, o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU i drethi, gwariant cyhoeddus a'r system les rhwng 2010 a 2018, y bydd 1.5 miliwn o blant ychwanegol yn byw mewn tlodi yn 2021/2.¹⁴ Mae budd-dal plant ar gyfer yr ail blentyn, ac unrhyw blant dilynol, bellach yn werth llai yn 2019/20 na phan gafodd ei gyflwyno'n llawn ym 1979.¹⁵ Amcangyfrifir, o ganlyniad uniongyrchol i'r terfyn dau blentyn ar elfen plant y credydau treth a'r Credyd Cynhwysol, y bydd 300,000 o blant yn cael eu gwthio i dlodi erbyn 2023/4.¹⁶

Yn 2018/9, roedd 4.2 miliwn o blant yn y DU yn byw mewn tlodi cymharol, gyda 3.7 miliwn o blant yn byw mewn tlodi absoliwt.¹⁷ Mae plant sy'n byw mewn teuluoedd lle mae rhywun yn anabl, plant sy'n byw ar aelwydydd unig riant a phlant o leiafrifoedd ethnig penodol yn anghymesur o debygol o fod yn byw mewn tlodi.¹⁸ Mae plant o deuluoedd heb unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus mewn perygl arbennig o dlodi.¹⁹

Er gwaethaf hyn, diddymodd Llywodraeth y DU dargedau a oedd gynt yn rhwymol i leihau tlodi plant yn Lloegr.²⁰ Yn yr un modd, methodd Llywodraeth

¹⁴ Gan gynnwys 1.36 miliwn yn Lloegr a 50,000 yng Nghymru. EHRC (2018), [The cumulative impact of tax and welfare reforms](#), tt. 23–24. Seilir y rhagolygon ar amcangyfrifon cyn y pandemig.

¹⁵ Ibid., Ffig. 1.

¹⁶ Eglwys Loegr, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, Cymorth i Ferched, Turn2us a'r Cyngor Ffoaduriaid (2019), [All kids count: the impact of the two-child limit after two years](#), t.14 [cyrchwyd: 16 Gorffennaf 2020].

¹⁷ Adran Gwaith a Phensiynau (2020), [Households Below Average Income, Statistics on the number and percentage of people living in low income households for financial years 1994/95 to 2018/19](#), Tabl 4b [cyrchwyd: 6 Awst 2020].

¹⁸ Ibid., Tablau 4_3db a 4_5db.

¹⁹ Cymdeithas y Plant (2020), [A lifeline for all: Children and families with no recourse to public funds](#) [cyrchwyd: 29 Hydref 2020].

²⁰ [Welfare Reform and Work Act 2016](#), Adrannau 4-7.

Cymru â chyrraedd ei tharged i roi terfyn ar dlodi plant yng Nghymru erbyn 2020 ac nid yw wedi adnewyddu'r targed hwn.²¹

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu fframwaith ar gyfer lleihau'r anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol drwy'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.²² Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddechrau'r ddyletswydd o fis Mawrth 2021,²³ nid yw'r ddyletswydd wedi'i deddfu yn Lloegr.

Mae perygl i bandemig y coronafeirws wthio mwy o deuluoedd i dlodi. Mae grwpiau sydd eisoes yn wynebu tlodi yn fwy tebygol o weld eu hincwm yn gostwng yn ystod y pandemig,²⁴ ac mae teuluoedd â phlant ymhlith y rhai sydd fwyaf ar eu colled.²⁵

²¹ Newyddion BBC (2016), 'No end to child poverty by 2020, Welsh Government says' [cyrchwyd: 3 Awst 2020]. Nid yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar Dlodi Plant yn cynnwys targed i roi terfyn ar dlodi plant.

²² Adran 1(1) Deddf Cydraddoldeb 2010.

²³ Llywodraeth Cymru gwefan [cyrchwyd: 3 Awst 2020].

²⁴ Joyce, R. a Xu, X. (2020), 'Sector shutdowns during the coronavirus crisis: which workers are most exposed?' [cyrchwyd: 6 Awst 2020].

²⁵ Lee, T. (2020), 'Families hit harder because nothing for children in Covid-19 response', y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, 12 Mai [cyrchwyd: 6 Awst 2020].

Er ein bod wedi croesawu'r ffaith fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno 30 awr o ofal plant am ddim i blant o dair i bedair oed yn Lloegr,²⁶ mae tystiolaeth yn awgrymu bod argaeledd gofal plant yn parhau i fod yn her sylweddol.²⁷ Dywed darparwyr gofal plant yn Lloegr nad yw cyllid Llywodraeth y DU yn ddigonol i dalu'r costau.²⁸ Mae'r gyfradd cyflog statudol isel ar gyfer Absenoldeb Rhiant a Rennir hefyd yn rhwystr i rieni sy'n gweithio.²⁹

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynnig Gofal Plant Cymru yn 2017 i ddarparu hyd at 30 awr o ofal plant ffurfiol i blant tair neu bedair oed,³⁰ ond nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell i ddiwallu anghenion rhieni.

Argymhellion

Nawdd cymdeithasol

Dylai Llywodraeth y DU:

- gynnal asesiadau effaith cronol o hawliau plant o'r holl bolisïau treth a nawdd cymdeithasol newydd ac ailystyried polisïau cyfredol sy'n cyfrannu at effeithiau negyddol ar y plant mwyaf difreintiedig. Dylid rhoi ystyriaeth i effaith pandemig y coronafeirws yn benodol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw blant yn dioddef amddifadedd neu dlodi materol o ganlyniad i effeithiau negyddol polisïau nawdd cymdeithasol.
- lleihau'n barhaol yr arhosiad o bum wythnos am y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, i gefnogi'r hawl i safon byw ddigonol i aelwydydd â phlant sydd wedi colli eu hincwm yn ystod y pandemig a thu hwnt.
- cael gwared ar y cyfyngiad dau blentyn, y terfyn ar fudd-daliadau ac ymestyn yr ymgodiad yn sgil argyfwng y coronafeirws o £20 yr wythnos ar elfen plentyn Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Plant yn barhaol fel y gall

²⁶ Gov.uk (2020) [30 hours free childcare](#).

²⁷ Coram Family and Childcare (2020), [Childcare Survey 2020](#), tt. 4 a 24.

²⁸ EHRC (2018), [A yw Prydain yn Decach?](#), 46.

²⁹ Birkett, H. a Forbes, S. (2018), [Shared Parental Leave: Why is take-up so low and what can be done?](#), Prifysgol Birmingham.

³⁰ Llywodraeth Cymru, [Cynnig Gofal Plant Cymru: Help gyda chost gofal plant i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 i 4 oed](#) [cyrchwyd: 10 Medi 2020].

teuluoedd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi'n well ag effaith y pandemig.

- adolygu cyfradd budd-dal plant yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn cydfynd â chwyddiant.
- sicrhau system nawdd cymdeithasol sy'n hygyrch i bawb ac sy'n darparu safon byw ddigonol i bawb, drwy gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r defnydd o sancsiynau ac amodoldeb ar aelwydydd â phlant, yn enwedig y rhai sy'n rhannu gwahanol nodweddion gwarchoddedig, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau.

Tlodi

Dylai llywodraeth y DU a Chymru:

- ystyried darparu prydau ysgol am ddim i bawb, neu o leiaf, ymestyn y cymhwyster i bob plentyn sy'n byw mewn tlodi a'r rhai ar aelwydydd heb unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus, ac ymestyn y ddarpariaeth i wyliau'r ysgol drwy roi opsiynau i deuluoedd, gan gynnwys system dalebau, sy'n cyfateb i lwfans prydau ysgol am ddim.
- ailgyflwyno targedau sy'n gysylltiedig â thlodi incwm ar gyfer dileu tlodi plant a sefydlu mecanweithiau atebolrwydd clir (gan gynnwys targedau rhwymol) gyda ffrâm amser benodol a dangosyddion mesuradwy ar gyfer cyrraedd y targedau hyn.

Dylai Llywodraeth y DU:

- ddod â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yn Lloegr cyn gynted â phosibl.
- diwygio'r rheolau mewnfudo presennol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amodau 'dim hawl i arian cyhoeddus' yn cael eu defnyddio gyda rhieni sydd â hawl i aros yn y DU pan fydd ganddynt blant o dan 18 oed neu sy'n dal i fod mewn addysg amser llawn.
- datblygu strategaeth tlodi plant gynhwysfawr ar gyfer Lloegr, sy'n nodi cynllun gweithredu clir i ddileu tlodi plant a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebier gan blant a phobl ifanc sydd wedi'u gwaethygu yn sgil y pandemig, gan sicrhau bod buddiannau pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- nodi yn ei chanllawiau statudol ar gyfer y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yr anghydraddoldebau deilliant penodol y mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn eu dioddef pan ddylai hi a chyrrff cyhoeddus eraill ddefnyddio'r ddyletswydd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

- cyhoeddi strategaeth lleihau tlodi traws-lywodraethol gyda thargedau a dangosyddion perfformiad.

Gofal plant:

Dylai llywodraeth y DU a Chymru, lle bo hynny'n berthnasol:

- sicrhau bod gofal plant a reoleiddir yn briodol ar gael ac yn fforddiadwy, gan gynnwys drwy sicrhau bod gofal plant hyblyg o ansawdd uchel a ariennir yn ddigonol ar gael ar gyfer pob plentyn, mynd i'r afael â phroblemau gyda chyllid ac argaeledd y ddarpariaeth 30 awr o ofal plant am ddim i blant o dair i bedair oed, a mynd i'r afael â'r bwch cyllido ar gyfer plant rhwng naw mis a thair blwydd oed.
- cyflwyno absenoldeb rhiant a rennir sy'n ddynodedig, yn benodol, yn hyblyg ac na ellir ei drosglwyddo, ar sail 'manteisio neu golli', gyda chyfradd cyflog sy'n gymhelliant gwirioneddol i ddefnyddio'r cyfnod hwn.
- gwneud tadolaeth a rhannu absenoldeb rhiant yn hawl 'o'r diwrnod cyntaf' i gyflogeion, a chynnwys darpariaethau cyfatebol ar gyfer gweithwyr asiantaeth a hunangyflogedig i sicrhau y gallant gael absenoldeb rhiant a rennir â thâl ar yr un gyfradd â chyflogeion.

3. Addysg (Erthyglau 28, 29 ac 42)

Roedd anghydraddoldebau sylweddol o ran cyrhaeddiad addysgol ar oedran gadael ysgol yng Nghymru a Lloegr yn 2018/9. Roedd gan rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig gyfraddau cyrhaeddiad is nag eraill, ³¹ felly hefyd y plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA).³² Yn 2018, ehangodd y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r rhai nad ydynt o dan anfantais ar lefel uwchradd ac yn y blynyddoedd cynnar, ac nid yw hyn wedi gwella oddi ar hynny.³³ Yn 2019, cynyddodd y bwlch hefyd ar lefel ysgolion cynradd am y tro cyntaf ers o leiaf 2007, gan wrthdroi cynnydd blaenorol.³⁴

Mae'r anghydraddoldebau hyn yn debygol o waethygu'n sylweddol yn sgil pandemig y coronafeirws, gyda chau ysgolion, anghydraddoldebau mewn amgylchiadau dysgu gartref, y 'gwahaniaeth digidol' a diddymu arholiadau.³⁵

Ceir tystiolaeth anecdotaidd eang o ddefnydd gormodol parhaus o ataliaeth mewn addysg,³⁶ ond nid oes dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion yng Nghymru na Lloegr i gofnodi'r defnydd ohoni.

Ers 2013/4 mae cyfradd y gwaharddiadau sefydlog a pharhaol wedi bod yn codi yn Lloegr.³⁷ Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwaharddiadau'n cael eu defnyddio'n anghymesur ar gyfer rhai grwpiau gan gynnwys plant ag anghenion

³¹ Department for Education (2020), [National Statistics: Key stage 4 performance 2019 \(revised\), national characteristics table](#); Llywodraeth Cymru (2020) [Cyfnod Allweddol 4 o 2018/2019](#).

³² Ibid.

³³ Education Policy Institute (2020), [Education in England, Annual Report 2020](#), t. 11 [cyrchwyd: 11 Medi 2020].

³⁴ Ibid.

³⁵ Sefydliad Gwaddol Addysgol (2020) [Impact of school closures on the attainment gap: rapid evidence review](#).

³⁶ Challenging Behaviour Foundation (2019) [Reducing Restrictive Intervention of Children and Young People](#), tt. 11–18 [cyrchwyd: 7 Awst 2020]. Gweler hefyd EHRC (2019) [Human Rights Framework for Restraint](#), t. 4 [cyrchwyd 7 Awst 2020].

³⁷ Department for Education, (2020), [Permanent and fixed-period exclusions in England](#).

addysgol arbennig ac anabledau (AAAA), bechgyn, y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a phlant o rai lleiafrifoedd ethnig penodol.³⁸ Yng Nghymru, lle mae nifer y gwaharddiadau hefyd wedi bod yn codi ers 2013/4,³⁹ mae ffigurau'n dangos bod gan ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig a phlant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gyfraddau uwch o waharddiadau.⁴⁰

Rydym yn pryderu am gyfyngiadau ar fesurau diogelu rhag gwahardd, gan gynnwys nad yw disgyblion yn Lloegr o dan 18 oed yn gallu herio penderfyniad i'w gwahardd.⁴¹

Mae ymchwil yr ydym wedi'i chynnal yn awgrymu bod rhwystrau i weithredu dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol mewn ysgolion ledled Prydain Fawr.⁴² Yn Lloegr, nid yw'r rhain yn cynnwys digon o wybodaeth ymhlith athrawon am y fframwaith hawliau dynol rhyngwladol.

Er gwaethaf newidiadau yn Lloegr⁴³ a Chymru⁴⁴ i wneud agweddau ar addysg rhyw a pherthnasoedd yn orfodol ar lefel gynradd ac uwchradd, nid yw'r canllawiau'n nodi'n glir bod addysgu am deuluoedd lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) yn orfodol i ysgolion cynradd yn Lloegr.⁴⁵

³⁸ Ibid; EHRC, (2018), Is Britain Fairer?

³⁹ Ystadegau ar gyfer Cymru (2019), Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru 2017/2018.

⁴⁰ Ibid., t. 2.

⁴¹ Er bod hyn yn wir yn ôl Adran 51(a)(c) Deddf Addysg 2000 a The School Discipline (Pupil Exclusions and Reviews) (England Regulations) 2012, mae llwybrau eraill ar gael dan amgylchiadau penodol.

⁴² EHRC (2020), Archwilio addysg hawliau dynol ym Mhrydain Fawr.

⁴³ Relationships Education, Relationships and Sex Education and Health Education (England) Regulations 2019: Offerynnau Statudol Drafft, SI 2019/924. Mae canllawiau newydd yn caniatáu i ysgolion ohirio hyn tan ddechrau tymor yr haf 2021. Gweler Department for Education, (2019), Relationships education, relationships and sex education (RSE) and health education.

⁴⁴ Llywodraeth Cymru (2017), Cwricwlwm i Gymru: trosolwg [cyrchwyd: 3 Medi 2020].

⁴⁵ Department for Education, (2019), Relationships education, relationships and sex education (RSE) and health education: FAQs. Gweler hefyd: Department for Education, (2019), Engaging parents with relationships education policy.

Nid yw hanes yr Ymerodraeth Brydeinig, mewnfudo a gwladychiaeth yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru na Lloegr,⁴⁶ er bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor i gynghori ar addysgu themâu sy'n ymwneud â phrofiadau lleiafrifoedd ethnig.⁴⁷

Mae'r duedd i gynnwys plant ag AAAA mewn ysgolion prif ffrwd wedi arafu yn Lloegr.⁴⁸ Mae pryderon bod model ariannu ysgolion yn Lloegr yn datgymell ysgolion prif ffrwd rhag bod yn fwy cynhwysol.⁴⁹ Yng Nghymru, mae cynrychiolaeth gyfrannol plant ag AAA sy'n mynychu ysgolion arbennig wedi bod yn cynyddu'n gyson ers sawl blwyddyn.⁵⁰ Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau gan gynnwys y Cwricwlwm newydd i Gymru⁵¹ a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg 2018.⁵²

Mae gennym bryderon am oblygiadau'r pandemig o ran mynediad plant at gymorth ychwanegol, gyda phrinder staff, rheolau cadw pellter cymdeithasol a'r angen i ganolbwyntio ar yr argyfwng iechyd sy'n arwain awdurdodau lleol i leihau darpariaeth AAAA, ac mewn rhai achosion yn ei dileu yn gyfan gwbl.⁵³

⁴⁶ Mae hyn yn mynd yn groes i argymhellion Pwyllgor y CU ar Ddileu Gwahaniaethu Hiliol (2016), Concluding observations on the combined twenty-first to twenty-third periodic reports of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland.

⁴⁷ Llywodraeth Cymru (2020), Yr Athro Charlotte Williams i arwain y gwaith ar addysgu hanes cyfoethog Cymru a adeiladwyd ar sail gwahaniaeth ac amrywiaeth.

⁴⁸ Department for Education (2020), Special educational needs in England.

⁴⁹ National Audit Office (2019), Support for pupils with special educational needs and disabilities in England, para. 11.

⁵⁰ StatsCymru (2020), Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a blwyddyn [cyrchwyd: 10 Medi 2020].

⁵¹ Llywodraeth Cymru, Curriculum for Wales [cyrchwyd: 10 Medi 2020].

⁵² Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 [Sylwer: Mae rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith wedi'i ohirio am y tro oherwydd y pandemig].

⁵³ Jackman, A. a Wright, E. (2020), 'Education: recent developments', Grŵp Gweithredu Cyfreithiol, Mai 2020. Cefnogir y farn hon hefyd gan dystiolaeth anecdotaidd a roddwyd i ni gan Just for Kids Law ym mis Mai 2020.

Argymhellion

Cyrhaeddiad

Dylai llywodraeth y DU a Chymru:

- baratoi ar frys ar gyfer tarfu ar addysg yn y dyfodol oherwydd y pandemig, gan gynnwys drwy lunio cynlluniau wrth gefn i sicrhau bod pob plentyn, waeth beth fo'i gefndir a'i amgylchiadau, yn gallu cael addysg o ansawdd da heb wahaniaethu.
- cynyddu ei hymdrechion i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol, yn enwedig ymhlith plant dan anfantais economaidd-gymdeithasol, plant anabl a rhai grwpiau ethnig, a sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i gyrraedd ei lawn botensial drwy addysg.
- annog pob merch, waeth beth fo'i chefnidir, i astudio pynciau STEM, fel ei bod yn cael cyfle i ystyried a dilyn y llwybr gyrfa hwn

Dylai Llywodraeth y DU:

- gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o sut yr effeithiodd y trefniadau eithriadol ar gyfer cyhoeddi graddau yr haf hwn, y broses safoni a'r penderfyniad i ddisodli hyn â graddau a aseswyd gan athrawon, ar ganlyniadau disgyblion â nodweddion gwarchoddedig. Dylid defnyddio hyn i nodi unrhyw effeithiau anghymesur a hysbysu cynlluniau wrth gefn ar gyfer cyhoeddi graddau wrth baratoi ar gyfer y posibiliad o amhariad ar arholiadau yn y dyfodol.
- sicrhau bod y cynllun adfer addysg yn sgil y coronafeirws ar gyfer Lloegr, sy'n cynnwys gwerth £1 biliwn o breimiau dal-i-fyny ar gyfer plant difreintiedig, yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth unigol wedi'i dargedu ar gyfer disgyblion o leiafrifoedd ethnig a disgyblion anabl y mae cau'r ysgol yn effeithio arnynt.

Dulliau o reoli 'ymddygiad anodd'

Dylai llywodraeth y DU a Chymru:

- sicrhau bod ataliaeth yn cael ei defnyddio'n gymesur mewn ysgolion, a dim ond pan fetho popeth arall, yn unol â'n fframwaith hawliau dynol ar gyfer ataliaeth, a'i gwneud yn ofynnol i ysgolion gasglu a chyhoeddi data ar ddefnyddio ataliaeth, gan gynnwys nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddefnydd anghymesur ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Dylai hyn gynnwys gwahardd defnyddio ataliaeth am resymau disgyblu ac ar dechnegau sy'n achosi poen i blant yn fwriadol.

- Sicrhau, wrth i ysgolion ailagor eu drysau i nifer cynyddol o fyfyrwyr ar ôl cau yn sgil y pandemig, eu bod yn cael cymorth i reoli ymddygiad aflonyddgar. Dylid canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar a gweithredu'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu addasiadau rhesymol, yn enwedig yn achos plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), AAAA neu AAA, gan gynnwys y plant anabl hynny sydd â thuedd i gael eu cam-drin yn gorfforol.

Dylai Llywodraeth y DU:

- gyflymu'r cynlluniau i weithredu argymhellion Adolygiad Timpson, a nodi meysydd lle mae angen mesurau pellach i fynd i'r afael â'r lefelau anghymesur o waharddiadau sy'n effeithio ar leiafrifoedd ethnig a phlant anabl, gan gynnwys datblygu mesurau diogelu cryfach i atal gwaharddiadau anffurfiol, a'i gwneud yn ofynnol i ysgolion fuddsoddi mewn ymyriadau cynnar a chryfhau prosesau i ddisgyblion herio gwaharddiadau.
- ymestyn yr hawl ar unwaith i bob plentyn gael ei glywed cyn ei wahardd ac i apelio yn erbyn gwaharddiadau dros dro a pharhaol. Dylid rhoi cyngor a chymorth cyfreithiol sy'n briodol i oedran plant gydol y broses apelio neu hawlio, yn annibynnol ar awdurdodau lleol ac wedi'i adnoddu'n briodol.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- nodi a mynd i'r afael â'r rhesymau dros gyfraddau gwahardd uchel o'r fath ar gyfer grwpiau penodol, gan gynnwys plant ag AAA a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- sicrhau na chollir hawl plant o bob oed i gael eu clywed cyn cael eu gwahardd, apelio yn erbyn gwaharddiadau a chael cymorth wrth wneud hynny pan wneir unrhyw newidiadau i'r broses. Dylid rhoi cyngor a chymorth cyfreithiol sy'n briodol i oedran plant o'r fath gydol y broses apelio neu hawlio.

Addysg hawliau dynol

Dylai Llywodraeth y DU:

- sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu cryfhau fel rhan o'r cwricwlwm i feithrin gwerthoedd a rennir, mynd i'r afael ag agweddau rhagfarnllyd drwy addysgu am wahaniaeth, meithrin cydlyniant cymunedol a galluogi pobl ifanc i gymryd rhan lawn yn ein cymdeithas ddemocrataidd. Dylai'r cwricwlwm hefyd gynnwys hanes gwladychiaeth a mewnfudiad i Brydain, i alluogi plant i ddeall sut mae hyn wedi llunio pob agwedd ar ein gwlad.

- sicrhau bod addysgu am gyfansoddiad gwahanol deuluoedd - gan gynnwys teuluoedd LGBT – yn cael ei gynnwys fel rhan bendant a gorfodol o'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn unol â'i rhwymedigaethau o dan gyfraith ryngwladol, a bod yr holl ganllawiau a chyfathrebu cysylltiedig yn adlewyrchu hyn yn gyson.

Dylai Llywodraeth y DU a Chymru:

- sicrhau hyfforddiant athrawon o safon a chysonder da ym meysydd cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant.

Addysg gynhwysol

Dylai Llywodraeth y DU a, lle y bo'n berthnasol, Llywodraeth Cymru:

- ddileu datganiad amheus a dehongliadol ar Erthygl 24 o'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anabledd (CRPD), a chymryd camau pendant i hwyluso dewisiadau teulu gwirioneddol a gwireddu hawl plant anabl i addysg gynhwysol.
- sicrhau bod gwaith monitro a llwybrau unioni priodol ar waith a chryfhau'r dulliau unioni ar gyfer plant ysgol mewn achosion o wahaniaethu ar sail anabledd, methu â gwneud addasiadau rhesymol ac aflonyddu, gan gynnwys iawndal, lle bo hynny'n briodol.
- mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch ariannu'r system AAAA yn Lloegr, a waethygir gan y coronafeirws, drwy ddatblygu pecyn ariannu cynaliadwy hirdymor, gyda phwyslais ar sut i gymell ysgolion i fod yn fwy cynhwysol.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- wrth iddi weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlysoedd Addysg (Cymru) 2018, sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei chyflawni ar gyfer fframwaith cynhwysfawr a chydgyssylltiedig ar gyfer addysg gynhwysol lle mae gan deuluoedd â phlant anabl fynediad cynyddol i ysgolion a staff prif ffrwd, sydd â'r gallu i ddiwallu anghenion plant anabl.

4. Plant mewn sefydliadau (Erthyglau 23, 24 a 25)

Roedd dros 1,240 o blant wedi'u cadw dan orchymyn Deddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA) yn Lloegr yn 2018/9,⁵⁴ sef cynnydd o 63 o'r flwyddyn flaenorol.⁵⁵ Yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, roedd 102 o blant o dan 18 oed yn cael eu cadw dan orchymyn.⁵⁶

Galwodd adolygiad annibynnol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn 2018 am wiriadau a mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc.⁵⁷ Ymrwymodd Llywodraeth y DU i ddiwygio'r MHA yn 2018,⁵⁸ a 2019,⁵⁹ ond gohiriwyd y diwygio.

Rydym yn pryderu am y parhad yn y defnydd o ataliaeth gyda phlant ag anableddau dysgu a / neu awtistiaeth mewn gofal cleifion mewnol, wrth i 570 o ymriadau cyfyngol gael eu cofnodi yn Lloegr ym mis Mawrth 2020 yn unig.⁶⁰ Mae ymchwiliad seneddol yn cynnwys cefnogaeth i'n model cyfreithiol ar gyfer

⁵⁴ NHS Digital (2019), [Mental Health Act statistics, annual figures 2018-19](#) (gweler ystadegau'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ffigurau blynyddoedd 2018-19: tablau data yn Nhabl 1b) [cyrchwyd: 14 Gorffennaf 2020]. Bydd y cyfansymiau cenedlaethol cyffredinol yn uwch gan na chyflwynodd rhai darparwyr ddata. Nid yw ffigurau cyfatebol cadw cleifion dan orchymyn y Ddeddf Iechyd Meddwl, sydd wedi'u dadgyfuno yn ôl oedran, ar gael ar gyfer Cymru.

⁵⁵ NHS Digital (2018), [Mental Health Act statistics, annual figures 2017-18](#) (gweler tablau data yn Nhabl 1b) [cyrchwyd: 4 Awst 2020].

⁵⁶ StatsCymru, [Adran 135 ac 136: Nifer y bobl a gadwyd dan orchymyn, yn ôl bwrdd iechyd lleol, oedran, rhywedd a chwarter](#) [cyrchwyd: 31 Awst 2020]. Mewn rhai achosion ni chofnodwyd oedran, sy'n golygu y gallai'r ffigurau fod yn uwch.

⁵⁷ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018), [Modernising the Mental Health Act: Increasing choice, reducing compulsion](#) [cyrchwyd: 14 Gorffennaf 2020].

⁵⁸ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018), [Government commits to reform the Mental Health Act](#) [cyrchwyd: 14 Gorffennaf 2020].

⁵⁹ Swyddfa'r Prif Weinidog (2019), [The Queen's Speech December 2019 – background briefing notes](#) [cyrchwyd: 14 Ionawr 2020].

⁶⁰ NHS Digital (2020), [Learning disability services monthly statistics](#) (gweler ystadegau misol LDA gan y MHSDS – Mawrth 2020: tabl cyfeirio 17) [cyrchwyd: 14 Gorffennaf 2020].

hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned.⁶¹ Mae ymateb UK Gov yn cynnwys rhai ymrwymadau i'w croesawu, er ei fod wedi gohirio ymateb i rai argymhellion allweddol⁶²

Mae newidiadau cysylltiedig â'r pandemig i weithrediad gwasanaethau iechyd meddwl⁶³ a thriwlynlysoedd iechyd meddwl,⁶⁴ yn ogystal â newidiadau dros dro posibl i'r Ddeddf Iechyd Meddwl,⁶⁵ oll yn llacio mesurau diogelu pwysig yn erbyn cadw cleifion,.

Argymhellion

Dylai llywodraeth y DU a Chymru, lle bo hynny'n berthnasol:

- gryfhau'r meini prawf ar gyfer cadw plant a phobl ifanc dan orchymyn y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau bod yr ymyriad lleiaf cyfyngol yn cael ei ddefnyddio, a gwella gallu plant a phobl ifanc a gedwir dan orchymyn i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal ac i gael adolygiad amserol ac ystyrlon o'r penderfyniad i'w cadw neu i ymestyn y cyfnod cadw.

⁶¹ Joint Committee on Human Rights (2019), [Inquiry into the detention of children and young people with learning disabilities and/or autism](#) [cyrchwyd: 14 Gorffennaf 2020]; EHRC (2019), [Written evidence from The Equality and Human Rights Commission \(YDA0021\)](#) [cyrchwyd: 14 Gorffennaf 2020].

⁶² Llywodraeth y DU (2020), [The Government response to the Joint Committee on Human Rights reports on the detention of young people with learning disabilities and/or autism and the implications of the Government's COVID-19 response](#) [cyrchwyd: 30 Hydref 2020].

⁶³ NHS England (2020), [Legal guidance for mental health, learning disability and autism, and specialised commissioning services supporting people of all ages during the coronavirus pandemic](#) [cyrchwyd: 15 Gorffennaf 2020].

⁶⁴ Courts and Tribunal Judiciary (2020), [Pilot practice direction: health, education and social care chamber of the first-tier tribunal \(mental health\)](#) [cyrchwyd: 15 Gorffennaf 2020]; [Coronavirus Act 2020 \(Commencement No. 1\) \(Wales\) Regulations 2020](#) [cyrchwyd: 15 Gorffennaf 2020]; Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru (2020), [Cyfarwyddyd Ymarfer COVID-19](#) [cyrchwyd: 15 Gorffennaf 2020].

⁶⁵ [Coronavirus Act 2020, Atodlen 8, Rhan 2](#). Nid yw'r newidiadau hyn wedi'u hysgogi, ond yn eu plith mae bwriad i gynnwys lleihau nifer y meddygon sydd eu hangen i gymeradwyo cadw cleifion dan orchymyn, i ymestyn neu ddileu terfynau amser ac i leihau'r oruchwyliaeth ar gyfer triniaeth dan orfod. Gweler Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (2020), [Legal matters – COVID-19 guidance for clinicians](#) [cyrchwyd: 15 Gorffennaf 2020].

- rhoi ar waith argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Dylai'r rhain gynnwys cymryd camau i fynd i'r afael â'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys cyfraddau cadw a defnyddio ataliaeth.
- gwella'r broses o gasglu data ar ddefnyddio ataliaeth ar blant a phobl ifanc mewn gofal cleifion mewnol.
- Sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl priodol o ansawdd uchel sydd wedi'u hariannu'n ddigonol ac yn gynaliadwy yn y gymuned, ar gael i gefnogi anghenion pob plentyn ac unigolyn ifanc, gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu a/neu anhwylder ar y sbectwm awtistig, i leihau'r angen i droi at dderbyniad a thriniaeth anwirfoddol.
- diddymu darpariaethau sy'n gysylltiedig â'r pandemig a fyddai'n llacio mesurau diogelu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl cyn gynted â phosibl, gan gynnwys darpariaethau yn Neddf Coronafeirws 2020, canllawiau cyfreithiol sy'n effeithio ar weithrediad y gwasanaethau iechyd meddwl, a newidiadau i weithrediad tribiwnlysoedd iechyd meddwl. Dylid monitro'n ofalus a chyhoeddi'r data ar gyfraddau cadw dan orchymyn y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod cyfnod y pandemig, yn ogystal â data am achosion COVID-19 a marwolaethau ymhlith y rhai a gedwir dan orchymyn y Ddeddf Iechyd Meddwl.

5. Cyfiawnder ieuenctid (Erthyglau 37 a 40)

Rydym yn pryderu bod plant Duon yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cadw yn y ddalfa yn anghymesur, ar gyfraddau llawer uwch na phlant o grwpiau ethnig eraill, a bod y cyfraddau hynny'n cynyddu.⁶⁶

Rydym hefyd yn pryderu bod oedran cyfrifoldeb troseddol yn parhau i fod yn 10 yng Nghymru a Lloegr.⁶⁷

Mae plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yn wynebu lefelau uchel o drais.⁶⁸ Mae llawer wedi teimlo'n anniogel ac wedi profi bwlio, yn enwedig plant anabl a phlant Teithwyr.⁶⁹ Mae tua 200 o honiadau o gam-drin rhywiol yn cael eu gwneud bob blwyddyn, yn erbyn staff yn bennaf.⁷⁰ Fodd bynnag, mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) wedi canfod mai anaml yr ymchwilir yn briodol i gwynion.⁷¹

Roedd nifer y digwyddiadau hunan-niwed mewn lleoliadau diogel i ieuenctid yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 yr uchaf yn y pum mlynedd diwethaf.⁷²

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, cynyddodd ymyriadau corfforol cyfyngol mewn lleoliadau diogel i ieuenctid 16%, o gymharu â'r flwyddyn

⁶⁶ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020), [Youth justice statistics 2018/19](#).

⁶⁷ Adran 50 [Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933](#) (fel y'i diwygiwyd) [cyrchwyd: 3 Gorffennaf 2020].

⁶⁸ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020), [Youth Justice Statistics 2018/19 England and Wales. Statistics bulletin](#) [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

⁶⁹ Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2020), [Children in Custody 2018–19 An analysis of 12–18-year-olds' perceptions of their experiences in secure training centres and young offender institutions](#) [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

⁷⁰ IICSA (2019), [Sexual abuse of children in custodial institutions 2009-2017 investigation report](#) [cyrchwyd: 7 Awst 2020].

⁷¹ Ibid.

⁷² Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020), [Youth Justice Statistics 2018/19 England and Wales. Statistics bulletin](#) [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

flaenorol.⁷³ Yr ydym wedi galw am wahardd defnyddio ataliaeth sy'n peri poen i blant.⁷⁴ Mae'r defnydd o wahanu hefyd yn bryder, gyda 59% o blant yn dweud eu bod yn cael eu cadw ar eu pennau'u hunain.⁷⁵

Mae pandemig y coronafeirws wedi ychwanegu at bwysau ar y lleoliadau diogel i ieuenctid, gyda phlant wedi'u cloi i mewn am fwy o amser,⁷⁶ ymweliadau wedi'u hatal, a chyfyngiadau wedi'u gorfodi ar ddysgu a therapi.⁷⁷

Rydym wedi'n brawychu o weld y ffordd y mae rhai plant yn cael eu plismona, er enghraifft, defnyddio gynau Taser ar blant yng Nghymru a Lloegr 1,700 o weithiau yn 2018/9,⁷⁸ sef cynnydd o 78% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.⁷⁹ Dengys tystiolaeth eu bod yn cael eu defnyddio'n anghymesur yn Lloegr yn erbyn plant o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig.⁸⁰

⁷³ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020), [Youth Justice Statistics 2018/19 England and Wales](#). Statistics bulletin, t. 51 [cyrchwyd: 1 Medi 2020].

⁷⁴ EHRC (2019), [Torture in the UK: update report Submission to the UN Committee Against Torture in response to the UK List of Issues](#), t. 59 [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

⁷⁵ Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2020), [Children in Custody 2018–19 An analysis of 12–18-year-olds' perceptions of their experiences in secure training centres and young offender institutions](#) [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

⁷⁶ Llywodraeth y DU (2020), [Explanatory memorandum: The Secure Training Centre \(Coronavirus\) \(Amendment\) Rules 2020, 2020 No.664](#) [cyrchwyd: 11 Medi 2020].

⁷⁷ Pwyllgor Cyfiawnder (2020), [Coronavirus \(Covid-19\): The impact on prisons](#) [cyrchwyd: 7 Awst 2020].

⁷⁸ Swyddfa Gartref (2019), [Police use of force statistics, England and Wales: April 2018 to March 2019: data tables](#), gweler Tabl 2 [cyrchwyd: 11 Medi 2020].

⁷⁹ Swyddfa Gartref (2018), [Police use of force statistics, England and Wales, April 2017 to March 2018: data tables](#), gweler Tabl 2 [cyrchwyd: 11 Medi 2020].

⁸⁰ Children's Rights Alliance for England (2018), [Briefing on policing and criminal justice](#).

Mae gan yr heddlu bwerau i stopio a chwilio plant o unrhyw oedran, gyda thystiolaeth yn dangos bod y rhai o leiafrifoedd ethnig yn cael eu hatal yn anghymesur.⁸¹ Mae gennym bryderon ynghylch dileu mesurau diogelu ar achosion o stopio 'heb amheuaeth'.⁸²

Rydym yn dal yn bryderus ynghylch newidiadau i'r gyfundrefn cymorth cyfreithiol sifil yng Nghymru a Lloegr.⁸³ Mae dileu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion cyfraith teulu preifat,⁸⁴ er enghraifft, wedi cael effaith sylweddol ar blant, gan gynnwys mewn achosion i benderfynu ar breswylfa, cyswllt a chymorth ariannol.⁸⁵

Argymhellion

Trin plant yn y system cyfiawnder troseddol

Dylai Llywodraeth y DU:

- wella darpariaeth ac argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl yn y lleoliadau diogel i ieuencid er mwyn atal hunanladdiad a hunan-niwed. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol ar effaith cyfyngiadau'r coronafeirws ar iechyd meddwl plant.
- cyhoeddi cynllun penodol ar gyfer datrys problemau yn nalfa'r ifanc a gododd yn dilyn y cyfyngiadau a achoswyd gan y pandemig. Dylai hyn gynnwys camau i: gynyddu mynediad at addysg; cynyddu'r cyswllt â theuluoedd a

⁸¹ Mae data Rhyddid Gwybodaeth yn dangos mai rhai 15-19 oed y gyfran fwyaf o'r rhai a gafodd eu stopio a'u chwilio yn Lloegr; gweler Children's Rights Alliance for England (2019), [Briefing on policing and criminal justice](#). Yn gyffredinol, mae cyfraddau uwch o bobl o bob grŵp lleiafrifol ethnig yn cael eu stopio na'r rheiny o grwpiau Gwyn, yn enwedig pobl Dduon, sy'n cael eu stopio bron 10 yn amlach; gweler y Swyddfa Gartref (2019), [Stop and search statistics data tables, police powers and procedures year ending 31 March 2019](#), Tabl 13.

⁸² Swyddfa Gartref (2019), [Section 60 stop and search pilot extended](#).

⁸³ [Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012](#) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd (LASPO), Atodlen 1, Rhan 1.

⁸⁴ Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, [Scope of family proceedings under LASPO](#) [cyrchwyd: 1 Medi 2020].

⁸⁵ EHRC (2018), [The impact of LASPO on routes to justice](#); a Wong, S. a Cain, R. (2019), [The impact of cuts in legal aid funding of private family law cases](#), Journal of Social Welfare and Family Law [cyrchwyd: 13 Gorffennaf 2020].

ffrindiau, gan gynnwys ymweliadau wyneb yn wyneb; cynyddu'n sylweddol yr amser allan o gelloedd; a dileu cyfnodau mewn celloedd ar eu pennau'u hunain. Dylid dileu anghysonderau yn y ddarpariaeth ar draws lleoliadau diogel i ieuencid.

- sicrhau bod camau mesuradwy yn cael eu cymryd i leihau trais yn nalfeydd yr ifanc a achosir ac a gyflawnir gan blant, gan gynnwys ymosodiadau a bwlio, a gweithredu mewn ymateb i argymhellion adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ynglŷn â'r troseddau hynny yn nalfeydd yr ifanc.
- gwella'r broses o gasglu data ar y defnydd o ataliaeth mewn lleoliadau diogel i ieuencid a sicrhau bod ataliaeth yn cael ei ddefnyddio'n gymesur ac fel dewis olaf yn nalfa'r ifanc, yn unol â'n fframwaith hawliau dynol ar gyfer ataliaeth. Dylai hyn gynnwys gwahardd defnyddio ataliaeth am resymau disgyblu a thechnegau sy'n peri poen i blant yn fwriadol.
- datblygu system gyfannol sy'n seiliedig ar les, gan gynnwys ymyrraeth gynnar a gwasanaethau therapiwtig, ar gyfer ymdrin ag ymddygiad niweidiol plant, a chodi oedran cyfrifoldeb troseddol i o leiaf 14 oed, yn unol â safonau hawliau dynol rhyngwladol.
- blaenoriaethu gweithredu'r argymhellion a nodir yn Adolygiad Lammy a chan y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru ar frys, a datblygu a gweithredu strategaeth gynhwysfawr, gydgysylltiedig a hirdymor i sicrhau nad yw plant o leiafrifoedd ethnig yn cael triniaeth anghymesur yn y system cyfiawnder troseddol.

Plismona

Dylai Llywodraeth y DU:

- ddeall ac ymdrin â defnydd anghymesur o rym gan yr heddlu ar blant o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- parhau i wella ansawdd a chysondeb data ar ddefnyddio grym, gan gynnwys data ar nodweddion gwarchoddedig, er mwyn sicrhau tryloywder, hyrwyddo arfer gorau a chefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag anghyfartaledd hiliol.
- gwahardd defnyddio gynau Taser ar blant, gan weithredu argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- dwyn heddluoedd i gyfrif am eu defnydd o bwerau stopio a chwilio a sicrhau nad yw'r bwerau hyn yn cael eu defnyddio ac eithrio mewn modd cyfreithlon, anwahaniaethol a dim ond ar sail amheuaeth resymol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod heddluoedd yn cydymffurfio â'r Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, cofnodi a monitro data ethnigrydd yn effeithiol, a rhoi mesurau diogelu gweithdrefnol priodol ar waith i ddiogelu'r hawliau i breifatrwydd, rhyddid a diogelwch.

- dadansoddi'n ofalus yr effaith y mae'r heddlu wedi'i chael ar blant o leiafrifoedd ethnig, yn enwedig plant Duon, a chyhoeddi ei ganfyddiadau. Ni ddylid ymestyn y peilot i ddileu mesurau diogelu ar y math hyn o stopio oni bai y gall Llywodraeth y DU ddangos bod cyfiawnhad dros y newidiadau a'u bod yn gymesur, a bod mesurau ar waith i atal unrhyw effaith wahaniaethol, yn unol â gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Cymorth cyfreithiol

Dylai Llywodraeth y DU:

- nodi lle mae Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 wedi cael effaith negyddol ar fynediad at gyfiawnder ar gyfer yr hawliau y mae'r CRC yn eu diogelu, a chymryd camau lliniaru, gan gynnwys dychwelyd meysydd cyfreithiol lle mae hawliau a lles plant mewn perygl.
- adolygu Cyllid Achosion Eithriadol a sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol i ddiogelu hawliau plant o dan Ddeddf Hawliau Dynol a Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys drwy ddatrys cymhlethdod y broses ymgeisio er mwyn sicrhau nad yw plant yn wynebu rhwystrau i gyllid mewn achosion pan na fyddai cymorth cyfreithiol ar gael fel arfer.

6. Ffoaduriaid a phlant mudol (Erthyglau 10, 22 a 37)

Mae ymadawriad y DU o'r UE wedi creu ansicrwydd ynghylch hawliau preswylion gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a gwladolion y Swistir yn y DU yn y dyfodol.

Bu oedi sylweddol wrth brosesu ceisiadau am loches gan blant ar eu pen eu hunain, ⁸⁶ac nid yw'r DU yn caniatáu i ffoaduriaid sy'n blant noddï perthnasau agos ymuno â hwy. ⁸⁷

Bydd ymadael 'heb gytundeb' o'r UE hefyd yn dirwyn i ben gyfranogiad y DU o Reoliad Dilyn III. ⁸⁸ Dan y rheoliad yma, mae undod teuluol yn faen prawf allweddol wrth bennu pa un o wladwriaethau'r UE sy'n gyfrifol am archwilio hawliad am loches. ⁸⁹

Yn 2019 roedd 98 o blant yn cael eu cadw at ddibenion mewnfudo, sef cynnydd am yr ail flwyddyn yn olynol. ⁹⁰ Dim ond traean o'r plant a oedd yn gadael y ddalfa yn 2018 a symudwyd o'r DU, ⁹¹ gan godi pryderon nad yw hyn yn digwydd dim ond pan fetho popeth arall. ⁹²

⁸⁶ Elder Rahimi Solicitors (2018), Systemic Delays in the Processing of the Claims for asylum made in the UK by Unaccompanied Asylum Seeking Children (UASC), tt. 6–8 [cyrchwyd: 15 Gorffennaf 2020].

⁸⁷ Nid yw'r DU wedi dewis bod yn rhan o Gyfarwyddeb Ailuno Teuluoedd Ewrop.

⁸⁸ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2019), What is the Dublin III Regulation? Will it be affected by Brexit? [cyrchwyd: 20 Gorffennaf 2020].

⁸⁹ Dublin III Regulation paragraff rhagarweiniol 16 ac Erthygl 8 [cyrchwyd: 20 Gorffennaf 2020].

⁹⁰ Swyddfa Gartref (2020), Immigration detention statistics: year ending June 2020, detention summary tables, [cyrchwyd: 23 Hydref 2020] tabl det_02b.

⁹¹ Swyddfa Gartref (2019), Immigration detention statistics, Table dt_09 [cyrchwyd: 19 Awst 2020].

⁹² Mae Erthygl 5 Human Rights Act 1998 yn gofyn bod cadw'n cael ei gysylltu'n agos â diben hwyluso allgludïad neu atal mynedïad anghyfreithlon.

Mae canllawiau newydd Llywodraeth y DU yn caniatáu i blant gael eu trin fel oedolion os yw eu hymddangosiad corfforol a'u diwyg yn 'awgrymu'n gryf iawn' eu bod yn 25 oed neu'n hŷn.⁹³ Mae pryderon parhaus bod yr asesiadau gweledol hyn o oedran yn annibynadwy yn eu hanfod ac efallai na fyddant yn rhoi digon o ystyriaeth i ffactorau diwylliannol neu hiliol perthnasol, nac i effeithiau trawma.⁹⁴

Argymhellion

Brexit ac ailuno teuluoedd

Dylai Llywodraeth y DU:

- sicrhau bod Cynllun Setliad yr UE ac unrhyw newidiadau i reolau mewnfudo'r DU yn y dyfodol yn gwneud hawliau plant, gan gynnwys budd pennaf y plentyn, yn brif ystyriaeth yn unol â'i rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny.
- dileu oedi diangen wrth brosesu ceisiadau am loches gan blant ar eu pen eu hunain, gan sicrhau bod data wedi'i ddadgyfuno ar y cyfnodau prosesu yn cael eu casglu a'u cyhoeddi.
- sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn caniatáu i blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau'u hunain ymuno â pherthnasau yn y DU o dan yr un telerau â Rheoliad Dulyn III ar ôl i'r DU dynnu'n ôl o'r UE, ac adolygu ei pholisi mewnfudo i alluogi ffoaduriaid plant i noddi perthnasau agos i ymuno â hwy yn y DU.

⁹³ Swyddfa Gartref (2019), [Assessing age, version 3.0](#), t. 11 [cyrchwyd: 19 Awst 2020].

⁹⁴ [BF \(Eritrea\) v Secretary of State for the Home Department \[2019\] EWCA Civ 872 \(23 Mai 2019\)](#) [cyrchwyd: 19 August 2020].

Asesiadau mewnfudo ac asesiadau gweledol o oedran

Dylai Llywodraeth y DU:

- sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau oedran o blant mudol a phlant sy'n ceisio lloches ar eu pennau'u eu hunain yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref, a diwygio'r canllawiau i gyflwyno rhagdybiaeth bod yn rhaid trin pobl ifanc fel plant os na wyddys i sicrwydd beth yw eu hoed, gan gynnwys peidio â'u cadw gydag oedolion, nes bod arbenigwr annibynnol wedi asesu eu hoedran yn wrthrychol.
- sicrhau bod dewisiadau amgen addas yn lle canolfannau mewnfudo ar gael i blant.
- cyflwyno terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer plant a phobl ifanc am gyfnod amhenodol, creu meini prawf statudol i sicrhau mai dim ond pan fetho popeth arall y defnyddir mesurau cadw, a'i gwneud yn ofynnol i farnwr awdurdodi eu cadw y tu hwnt i 72 awr.
- gweithredu'n llawn argymhellion Adolygiad Annibynnol Gwersi a Ddysgwyd yn sgil Windrush gan Wendy Williams, gan gynnwys drwy gynnal adolygiad llawn a gwerthusiad o bolisïau amgylchedd gelyniaethus, a chryfhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn unol â'n hasesiad a'n hargymhellion ar y pwnc.

7. Iechyd (Erthyglau 6 a 24)

Cynyddodd cyfran y plant ag anhwylder iechyd meddwl tebygol yn Lloegr yn sylweddol o un o bob naw yn 2017 i un o bob chwech yn 2020.⁹⁵ Awgrymodd ymchwil ddiweddar yng Nghymru gyfradd debyg, sef un ymhob saith.⁹⁶

Cynyddodd derbyniadau i'r ysbyty oherwydd hunan-niwed o leiaf 21% rhwng 2011/2 a 2017/8.⁹⁷ Mae rhai grwpiau – gan gynnwys merched a phlant lesbiaidd, hoyw a deurywiol – yn parhau i hunan-niweidio ar gyfraddau uwch nag eraill.⁹⁸ Mae cyfraddau hunanladdiad hefyd wedi cynyddu'n sylweddol ymhlith pobl ifanc a bron wedi dyblu yng Nghymru rhwng 2014 a 2020.⁹⁹ Nid yw'r nifer cynyddol o blant y mae angen cymorth arnynt yn derbyn y cymorth hwnnw, a dim ond 9% a nododd mewn arolwg ei bod yn 'hawdd' cael cymorth iechyd meddwl.¹⁰⁰

Mae'r 'loteri cod post' wrth gael cymorth yn parhau, gyda chyfran yr atgyfeiriadau gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) yng Nghymru lai na hanner y gyfradd yn Lloegr, yn seiliedig ar ffigurau 2020.¹⁰¹ Rydym hefyd yn pryderu am effaith amseroedd aros sylweddol¹⁰² a meini prawf mwyfwy llym o ran cymhwysedd¹⁰³ ar gyfer atgyfeiriadau CAMHS.

⁹⁵ NHS Digital (2020), [Mental health of children and young people in England, 2020](#).

⁹⁶ Mind Cymru (2019), [Mind Cymru calls on Welsh Government to make mental health and wellbeing a statutory part of the national curriculum for all learners, as survey finds that one in seven young people have poor mental health](#) [cyrchwyd: 6 Awst 2020].

⁹⁷ Mae'r ffigurau'n cynrychioli rhai rhwng 10 a 24 oed. Nid yw hyn yn ystyried nifer y rhai a aeth i adrannau Damweiniau a Brys ac mae'r nifer gwirioneddol felly yn debygol o fod yn uwch: gweler y Nuffield Trust (2019), [Hospital admissions as a result of self-harm in children and young people](#) [cyrchwyd: 13 Gorffennaf 2020].

⁹⁸ Cymdeithas y Plant (2018), [The Good Childhood Report 2018](#), t. 43.

⁹⁹ Mae'r ffigurau'n cynrychioli pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed. Gweler Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2020), [State of child health: at a glance](#) [cyrchwyd: 17 Gorffennaf 2020].

¹⁰⁰ Young Minds (2018), [#FightingFor Report](#), t. 6 [cyrchwyd: 17 Gorffennaf 2020].

¹⁰¹ Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2020), [State of child health: at a glance](#) [cyrchwyd: 17 Gorffennaf 2020].

¹⁰² Mae'r Local Government Association yn adrodd bod llai na thraean o blant a atgyfeiriwyd i CAMHS yn 2017 wedi derbyn triniaeth o fewn y flwyddyn; gweler Local Government Association, [CAMHS - facts and figures](#) [cyrchwyd: 9 July 2020].

¹⁰³ *Pulse* (2020), ['Revealed: How CAMHS are restricting GPs' referrals'](#), 3 Ionawr.

Mae effaith pandemig y coronafeirws ar iechyd meddwl plant yn debygol o fod yn ddifrifol ac o bara'n hir. Erbyn mis Gorffennaf 2020, dywedodd 81% o blant a oedd wedi ceisio cymorth iechyd meddwl yn flaenorol mewn arolwg fod eu hiechyd meddwl wedi dirywio.¹⁰⁴

Mae ffactorau megis hil,¹⁰⁵ amddifadedd,¹⁰⁶ profiad o ofal¹⁰⁷ neu hunaniaeth o ran rhywedd¹⁰⁸ yn aml yn pennu mynediad plant at ofal iechyd. Hefyd, mae mudwyr a cheiswyr lloches yn wynebu rhwystrau sylweddol,¹⁰⁹ gan gynnwys, i rai, cost gynyddol y gordal iechyd mewnffudo (IHS) yn Lloegr.¹¹⁰

Yr ydym hefyd yn pryderu am anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd, megis cyfraddau marwolaeth cynyddol ymhlith babanod¹¹¹ a gordewdra ymhlith plant.¹¹² Y mae'r ddau fater fel ei gilydd yn effeithio'n anghymesur ar blant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.

¹⁰⁴ YoungMinds (2020), [Coronavirus: Impact on young people with mental health needs](#), t. 3.

¹⁰⁵ Pwyllgor Merched a Chydraddoldebau (2019), [Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities](#), paragraffau 89–91.

¹⁰⁶ Nuffield Trust (2018), [Poor areas left behind on standards of GP care, research reveals](#).

¹⁰⁷ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) (2010, diweddarwyd 2015), [Guidance: looked after children and young people](#), paragraff 3.2.

¹⁰⁸ Children's Rights Alliance for England, [Children speak out on transgender issues](#), t. 5 [cyrchwyd: 20 Gorffennaf 2020].

¹⁰⁹ EHRC (2018), [The lived experiences of access to healthcare for people seeking and refused asylum](#); Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Abertawe (2019), [The Health Experiences of Asylum Seekers and Refugees in Wales](#).

¹¹⁰ Bydd yr IHS yn codi i £480 fesul plentyn fis Hydref 2020. [The Immigration \(Health Charge\) Order 2015](#).

¹¹¹ Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018), [Child and infant mortality in England and Wales: 2018](#), Adran 6.

¹¹² Public Health England (2020), [National child measurement programme \(NCMP\): trends in child BMI](#); a NHS Digital (2019), [National Child Measurement Programme, England 2018/19 School Year](#), Tabl 1a.

Er gwaethaf argymhellion gan gyrrff y Cenhedloedd Unedig i atal ymyriadau meddygol diangen ar blant rhyngrywiol,¹¹³ nid oes darpariaeth ddeddfwriaethol wedi'i gwneud.

Un o'r bygythiadau mwyaf arwyddocaol i les corfforol plant yw'r argyfwng hinsawdd ac effeithiau llygredd,¹¹⁴ gydag o leiaf 4.5 miliwn o blant yn y DU yn byw mewn ardaloedd â lefelau anniogel o lygredd aer.¹¹⁵

Argymhellion

Iechyd meddwl

Dylai llywodraeth y DU a Chymru:

- sicrhau bod penderfyniadau am ddarparu a blaenoriaethu gofal iechyd meddwl - yn ystod y pandemig ac yn yr hirdymor - yn cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus trwy sicrhau bod digon o ddata'n cael eu casglu a'u dadansoddi yn glŷn â'r angen am wasanaethau iechyd meddwl i bobl sy'n rhannu gwahanol nodweddion gwarchoddedig, bod mynediad i'r data a'r deilliannau a ddaw o'r data, a'u bod yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur.
- ymrwymo i gyllid uwch, hirdymor, wedi'i glustnodi, ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau ac ymyraethau iechyd meddwl i blant, yn ystod ac ar ôl y pandemig, gan gynnwys gofal therapiwtig bugeiliol mewn ysgolion, darparu digon o gymorth cymunedol i atal argyfwng a chadw dan orchymyn yn ddianghenraid, ynghyd ag adnoddau i gyhoeddi'n genedlaethol bod y gwasanaethau hyn ar gael.
- cynyddu cyllid uwch, hirdymor, wedi'i glustnodi, ar gyfer CAMHS i gyfateb i'r galw amdano, ochr yn ochr â strategaeth newydd i ddatrys anghydraddoldebau daearyddol, amseroedd aros a phryderon am feini prawf cymhwyster.

¹¹³ Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (2016), Concluding Observations, paragraffau. 47(c)–(e).

¹¹⁴ Gweler Watts, N., Amann, M., Arnell, N. et al (2019) 'The 2019 Report of The Lancet Countdown on health and climate change: ensuring that the health of a child born today is not defined by a changing climate', *The Lancet*, 16 Tachwedd, cyf. 394, cyhoeddiad 10211, tt. 1836–1878.

¹¹⁵ Unicef DU (2018), A breath of toxic air: UK children in danger, t. 4.

- datblygu strategaeth iechyd meddwl gadarn a thraws-adrannol ar frys i fynd i'r afael â'r angen cynyddol am gefnogaeth, gyda chynlluniau eglur a neilltuol i leihau'r cyfraddau anghymesur o anhwylderau iechyd meddwl mewn rhai grwpiau mewn perygl. Rhaid i'r strategaeth gynnwys amserlenni a thargedau eglur, dangosyddion mesuradwy, mecanweithiau monitro effeithiol a digon o adnoddau dynol, technegol ac ariannol.

Iechyd corfforol

Dylai llywodraeth y DU a Chymru:

- fynd i'r afael ar frys â'r anghydraddoldebau iechyd y mae plant yn eu dioddef – o ran mynediad a chanlyniadau fel ei gilydd – yn enwedig y plant hynny sydd mewn perygl arbennig o fod yn agored i niwed, a gosod amcanion sy'n canolbwyntio ar bolisïau a gwasanaethau iechyd sy'n benodol i blant lle mae tystiolaeth yn dangos y byddai ymyriadau wedi'u targedu yn effeithiol.
- diddymu'r Gordal Iechyd Mewnfudo i blant er mwyn sicrhau bod gofal iechyd ar gael i bob plentyn pan fydd ei angen arno, waeth beth fo'i amgylchiadau teuluol.
- deddfu i sicrhau nad yw ymyriadau meddygol nad ydynt yn rhai brys yn cael eu cynnal ar blant rhyngrywiol hyd nes y ceir caniatâd gwybodus, adolygu rheolau cofrestru genedigaethau er mwyn caniatáu ar gyfer achosion o fabanod sy'n cael eu geni ag anatomi rhywiol neu atgenhedlol annodweddiadol, a sicrhau bod gwybodaeth, cwnsela a gwasanaethau seicolegol digonol ar gael i deuluoedd a phlant.
- sicrhau bod hawliau plant, gan gynnwys yr hawl i fywyd a'r hawl i iechyd, yn flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau brys a gweithredu i leihau allyriadau carbon a llygredd aer.

8. Trais a diogelwch personol (Erthyglau 19, 34, 35 a 36)

Mae plant yn parhau i fod yn destun trais a cham-drin ac yn agored i'r ffactorau hyn, ac amcangyfrifir bod 831,000 o blant yn Lloegr yn byw ar aelwydydd sy'n adrodd am gam-drin domestig.¹¹⁶ Mae angen newidiadau i Fil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod holl oroeswyr cam-drin domestig, a'u plant, yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth arbenigol.¹¹⁷

Nid yw'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth bresennol yn cyrraedd pawb mewn angen, yn bennaf oherwydd diffygion ariannol.¹¹⁸ Yng Nghymru, er enghraifft, amcangyfrifir nad oedd 77% o blant a phobl ifanc a gafodd eu cam-drin yn y cartref yn 2018 yn cael unrhyw gymorth arbenigol.¹¹⁹

Cynyddodd nifer y troseddau rhywiol yn erbyn plant a gofnodwyd gan yr heddlu ledled y DU o 57% rhwng 2014/5 a 2019/20.¹²⁰ Darganfu'r IICSA yng Nghymru a Lloegr dystiolaeth helaeth bod awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am les plant yn ymwybodol o honiadau eang o gam-drin plant yn rhywiol ond eu bod wedi methu ag ymyrryd yn y mater.¹²¹

Yr ydym wedi'n brawychu o weld y cynnydd mewn trais yn erbyn plant yn ystod y pandemig.¹²² Â'r ysgolion ar gau, diflannodd mesur diogelu hanfodol ac arweiniodd hyn at gadw plant mewn sefyllfaoedd agored i niwed mewn mwy o berygl.

¹¹⁶ Comisiynydd Plant Lloegr (2019), [Vulnerable groups and latest data](#) [cyrchwyd: 7 Hydref 2020].

¹¹⁷ EHRC (2020), [Briefing, Domestic Abuse Bill House of Commons Report Stage and Third Reading](#) [cyrchwyd: 20 Gorffennaf 2020].

¹¹⁸ Women's Aid (2019), [The Domestic Abuse Report 2019: The Annual Audit](#), tt. 33 a 38.

¹¹⁹ [Cymorth i Ferched Cymru \(2019\) Datganiad i'r Wasg: Children and young people experience violence and abuse too](#) [cyrchwyd: 22 Gorffennaf 2020].

¹²⁰ NSPCC (2020), [Child sexual offences jump 57% in 5 years](#).

¹²¹ Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (April 2018), [Interim report of the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse](#) [cyrchwyd: 7 Medi 2020].

¹²² NSPCC (2020), [Contacts to NSPCC helpline about domestic abuse up by nearly 50%](#) [cyrchwyd: 5 Hydref 2020].

Mae priodas dan orfod a phriodasau plant yn feysydd sy'n peri pryder parhaus,¹²³ ac mae adroddiadau i heddluoedd yn y DU am drais 'seiliedig ar anrhydedd' fel y'i gelwir, wedi cynyddu 53% ers 2014.¹²⁴ Gallai diffyg yr euogfarnau o dan ddeddfwriaeth ar anffurfio organau rhywiol menywod (FGM) ddatgymell merched rhag dod ymlaen i adrodd am hynny.¹²⁵

Yn 2019 roedd 4,550 o atgyfeiriadau i'r Mekanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (NRM) am blant a allai fod yn destun caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, o'i gymharu â 1,278 yn 2016.¹²⁶

Gellir priodoli'r cynnydd mewn atgyfeiriadau NRM yn rhannol i gynnydd yn y broses o nodi achosion o gamfanteisio 'llinellau cyffuriau', lle mae gangiau cyffuriau mewn dinasoedd yn ehangu eu cyrhaeddiad i drefi bychain, yn aml ar draws siroedd.¹²⁷ Rhwystrowyd ymdrechion i fynd i'r afael â hyn gan strwythurau plismona, llywodraethu ac ariannu tameidiog, a chydgysylltu adnoddau'n wael.¹²⁸

Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn rhai o'r argymhellion a wnaed yn 2019 gan Yr Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (MSA).¹²⁹ Fodd bynnag, roeddem yn siomedig ei bod wedi gwrthod galwadau i ddiwygio'r MSA i egluro na all plant gydsynio i gael eu hecsbloetio.¹³⁰

¹²³ Llywodraeth y DU (2020), [Forced Marriage Unit Statistics 2018](#) [cyrchwyd: 7 Medi 2020].

¹²⁴ IKWRO (2017), [Press release: 53% rise in 'honour' based violence cases reported to the police since the criminalisation of forced marriage](#) [cyrchwyd: 7 Medi 2020].

¹²⁵ Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin (2016), [Female genital mutilation: abuse unchecked](#), t. 21 [cyrchwyd: 7 Medi 2020].

¹²⁶ Swyddfa Gartref (2020), [National Referral Mechanism Statistics UK, End of Year Summary, 2019](#), a'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (2017), [National Referral Mechanism Statistics – End of Year Summary 2016](#) [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

¹²⁷ Swyddfa Gartref (2020), [Modern Slavery: National Referral Mechanism and Duty to Notify Statistics – UK, Quarter 2 2020 – April to June](#) a'r Swyddfa Gartref (2019), [Independent Review of the Modern Slavery Act 2015: Final Report](#), tt. 32–36 [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

¹²⁸ Pwyllgor Materion Cartref (2019), [Serious youth violence: Sixteenth Report of Session 2017-19](#), ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (2020), [Both sides of the coin: The police and National Crime Agency's response to vulnerable people in 'county lines' drug offending](#), t. 36. [cyrchwyd: Dydd Gwener, 3 Gorffennaf 2020].

¹²⁹ Swyddfa Gartref (2019), [Independent Review of the Modern Slavery Act 2015: Final Report](#), tt. 22–29 [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

¹³⁰ Llywodraeth y DU (2019), [UK Government response to the Independent Review of the Modern Slavery Act 2015](#), tt. 17–18 [cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2020].

Argymhellion

Trais

Dylai Llywodraeth y DU:

- ddeddfu i ddileu'r amod 'dim hawl i gael arian cyhoeddus' ar gyfer goroeswyr cam-driniaeth ddomestig sy'n rhwystro llawer o oroeswyr mudol rhag cael mynediad at wasanaethau.
- sicrhau bod y Bil Cam-drin Domestig yn cynnwys dyletswydd statudol ar awdurdodau cyhoeddus i gomisiynu gwasanaethau yn y gymuned, yn ogystal â gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau llety (hynny yw, gwasanaethau i'r rhai mewn llochesi) Dylai hyn gynnwys gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc sydd wedi gweld cam-drin domestig yn y cartref, yn ogystal â goroeswyr camdriniaeth yn eu cydberthnasau eu hunain.
- sicrhau bod deddfwriaeth ar briodas yn unol â'r fframwaith hawliau dynol rhyngwladol, gan sicrhau bod buddiannau pennaf y plentyn yn cael eu hystyried yn brif ystyriaeth mewn deddfwriaeth priodas a darparu mesurau diogelu digonol i bobl ifanc dan 18 oed.
- sicrhau ymchwiliad trylwyr i bob atgyfeiriad o briodas dan orfod, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â menywod a merched ag anableddau dysgu.
- gwahardd pob math ar gosbi plant yn gorfforol, gan gynnwys drwy ddiddymu'r amddiffyniad 'cosb resymol'.
- dyrannu cyllid ychwanegol wedi'i neilltuo i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau mwy o fynediad at wasanaethau cymorth i blant sydd mewn perygl o niwed, yn ystod unrhyw gyfnod o gau ysgolion sy'n gysylltiedig â phandemig ac ar ôl iddynt ailagor.
- helpu pob ysgol i fonitro a nodi dangosyddion camdriniaeth, gan sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau i gynorthwyo'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin yn unol â dull sy'n seiliedig ar hawliau plant ac yn arddel ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol mewn plentynod.
- gweithredu ar frys holl argymhellion adroddiad Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM 2015 ar ymatebion yr heddlu i drais 'seiliedig ar anrhydedd' fel y'i gelwir.

Dylai llywodraeth y DU a Chymru, lle bo hynny'n berthnasol:

- sicrhau bod plant sy'n dystion i gam-drin domestig neu sydd wedi dioddef camdriniaeth neu drais rhywiol eu hunain yn cael cymorth priodol. Dylai llywodraethau ddatblygu model ariannu cynaliadwy, ymroddedig ac atebol ar gyfer llochesi a gwasanaethau cam-drin domestig, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i fenywod a phlant o leiafrifoedd du ac

ethnig, menywod a phlant anabl, a menywod a phlant ag anghenion cymhleth.

- cymryd camau priodol, yn ddi-oed, mewn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol perthnasol yn y sector cyhoeddus yn cael hyfforddiant gorfodol ar sut i nodi a chefnogi menywod a merched y mae arferion niweidiol yn effeithio arnynt.
- annog erlyniadau llwyddiannus am anffurfio organau rhywiol menywod (FGM), drwy gymryd camau pendant gan gynnwys darparu hyfforddiant i bersonél gorfodi'r gyfraith a'r farnwriaeth, gweithredu strategaeth FGM gynhwysfawr, gydgysylltiedig a ariennir yn briodol, a darparu cyllid digonol a chynaliadwy i grwpiau cymunedol perthnasol.

Masnachu mewn pobl a chamfanteisio arnynt

Dylai Llywodraeth y DU:

- nodi cynllun manwl ac amserlen ar gyfer gweithredu argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, gan gynnwys mynd i'r afael â'r rhai sy'n ymwneud â llinellau cyffuriau, a chyflwyno Gwarcheidwaid Annibynnol i drin Masnachu mewn Plant. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth y DU dderbyn a gweithredu argymhelliad yr Adolygiad Annibynnol ynglŷn â'r angen i'w gwneud yn glir nad oes modd i blant gydsynio i gael eu hecsbloetio.

Dylai llywodraeth y DU a Chymru, lle bo hynny'n berthnasol:

- sicrhau dull traws-lywodraethol, amlasiantaethol o nodi, atal ac ymateb i gamfanteisio ar blant, gan gynnwys camfanteisio ar blant drwy linellau cyffuriau, a diogelu a chefnogi plant sy'n dioddef masnachu mewn pobl. Dylai hyn gynnwys: darparu cyllid digonol a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar, gan gynnwys gwasanaethau ieuencid, ac ar gyfer cymorth arbenigol a lleoli llety addas; a chryfhau'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod plant sy'n oroeswyr yn cael eu nodi, eu diogelu a'u cefnogi'n briodol.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael [o'n gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu ein cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

[Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr.](#)

Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

I gael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth annibynnol ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 i 19:00 (Dydd Llun i Ddydd Gwener)

10:00 to 14:00 (Dydd Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2020 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Tachwedd 2020

ISBN: 978-1-84206-836-6



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission